Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Company Number: 08719645

# Cylch Gorchwyl
# Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thaliadau

**Dyddiad Cymeradwyo:** 9 Mawrth 2022

**Dyddiad Adolygu:** Chwefror 2023

## 1. Cyflwyniad

Yn unol ag Adran 14.1 Dogfen Fframwaith *Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig*, bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn enwebu pwyllgor bob blwyddyn a fydd yn cael ei alw'n **Bwyllgor Adnoddau Dynol a Thaliadau** ("y Pwyllgor").

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor, fel y cânt eu pennu gan y Bwrdd, a'r trefniadau gweithredu, wedi'u nodi yn y cylch gorchwyl hwn a dylid eu hystyried ochr yn ochr â Dogfen Fframwaith ac Erthyglau Cymdeithasu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

## 2. Pwrpas

Pwrpas y Pwyllgor yw:

- ystyried a chymeradwyo, ar ran y Bwrdd, faterion a pholisïau sy'n ymwneud â phenodi, terfynu, tâl, buddion a thelerau gwasanaeth cyflogeion.
- ystyried a chymeradwyo cynigion ynghylch strwythur y cwmni (cyflogai).
- ystyried a chael sicrwydd ynghylch risgiau sy'n ymwneud â phobl.
- monitro trefniadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- cymeradwyo argymhellion adolygiadau costau byw (blynyddol) ac unrhyw newidiadau i fandiau cyflog.
- cymeradwyo cynigion ynghylch cytundebau setlo a thaliadau.
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r diwylliant a'r arferion cywir o ran pobl er mwyn galluogi strategaeth ac uchelgais y sefydliad.
- sicrhau bod holl fusnes y Pwyllgor yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd, ac yn atebol iddo.

## 3. Aelodaeth

3.1 Bydd gan y Pwyllgor o leiaf dri aelod, yn cynnwys y Cadeirydd a dau gyfarwyddwr anweithredol.

3.2 Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am benodi holl aelodau'r Pwyllgor i'r Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| 3.3 | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cael ei benodi gan y Bwrdd o blith unrhyw un o'i aelodau. |
| 3.4 | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cadeirio pob cyfarfod. Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, bydd gweddill yr aelodau sy'n bresennol yn ethol un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod. Os yw absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor yn hysbys ymlaen llaw, gall Cadeirydd y Bwrdd ddynodi aelod o'r pwyllgor i gyflawni'r swyddogaeth hon dros dro. |
| 3.5 | Bydd cyfnod gwasanaeth aelodau'r Pwyllgor am gyfnod o dair blynedd, a gellir ei ymestyn am hyd at uchafswm o dair blynedd arall yn ôl disgresiwn y Bwrdd. Gall aelodau'r pwyllgor sy'n aelodau o'r Bwrdd ymddiswyddo gyda chaniatâd y Bwrdd a bydd eu gwasanaeth yn dod i ben os nad ydynt yn gwasanaethu fel aelodau o'r Bwrdd mwyach. |
| 3.6 | Dylai aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau na chawsant wybod amdanynt o'r blaen yn unol â threfniadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer datgan a rheoli buddiannau. |
| **4. Pwy sy'n bresennol** | |
| 4.1 | Bydd gan y Pwyllgor o leiaf bedwar aelod, yn cynnwys y Cadeirydd a thri chyfarwyddwr anweithredol. |
| 4.2 | Mae gan yr unigolion canlynol wahoddiadau sefydlog i fynd i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor:<br>• Prif Weithredwr<br>• Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br>• Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfiaeth (Ysgrifennydd y Pwyllgor). |
| 4.3 | Gwahoddir eraill o'r tu mewn neu'r tu allan i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru y mae'r Pwyllgor yn credu y dylent fod yn bresennol, gan ystyried y materion sy'n cael eu hystyried ym mhob cyfarfod. |
| 4.4 | Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rhai sydd fel arfer yn bresennol ond nad ydynt yn aelodau dynnu'n ôl o'r drafodaeth ar faterion penodol er mwyn hwyluso trafodaeth agored a gonest. |
| **5. Cworwm** | |
| 5.1 | Bydd cyfarfod wedi'i alw'n briodol o'r Pwyllgor lle mae cworwm o ddau aelod a Chadeirydd y Pwyllgor yn bresennol yn gymwys i arfer yr holl awdurdodau, pwerau a disgresiwn sydd wedi'u breinio yn y Pwyllgor neu sy'n arferadwy gan y Pwyllgor. |
| 5.2 | Caiff Cadeirydd y Bwrdd enwebu aelodau eraill o'r Bwrdd os na all un neu ddau o'r aelodau ddod i gyfarfod. |
| **6. Amlder cyfarfodydd** | |

| | |
|---|---|
| 6.1 | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn penderfynu ar amser ac amlder cyfarfodydd, yn ôl yr hyn a fernir yn angenrheidiol. |
| 6.2 | Disgwylir y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, yn unol â chynllun blynyddol Busnes y Bwrdd. Cynhelir un o'r cyfarfodydd hyn i gyd-fynd â'r adolygiad blynyddol o daliadau costau byw |
| **7. Hysbysiad o gyfarfodydd** | |
| 7.1 | Oni chytunir fel arall, anfonir rhybudd o bob cyfarfod yn cadarnhau'r lleoliad, yr amser a'r dyddiad ynghyd ag agenda o'r eitemau i'w trafod a bydd unrhyw bapurau perthnasol yn cael eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor a phob person arall y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol, dim hwyrach na phum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. |
| 7.2 | Gellir cynnal cyfarfodydd pwyllgor wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig e.e. fideo-gynadledda neu delegynadledda. |
| **8. Cofnodion cyfarfodydd** | |
| 8.1 | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn trefnu bod cofnodion o'r trafodion a phenderfyniadau pob cyfarfod yn cael eu gwneud, gan gynnwys enwau'r rheini a oedd yn bresennol ac unrhyw ddatganiadau o wrthdaro rhwng buddiannau. Bydd y cofnodion yn cael eu cymryd gan Ysgrifennydd dynodedig y Pwyllgor. |
| 8.2 | Bydd cofnodion drafft y cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu o fewn saith niwrnod gwaith i'r cyfarfod gael ei gynnal, yn gyntaf i Gadeirydd y Pwyllgor i'w hystyried ac yna i'r holl aelodau oedd yn bresennol yn y Pwyllgor. |
| 8.3 | Bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod dilynol. |
| 8.4 | Bydd copïau o'r cofnodion a gymeradwywyd yn cael eu hanfon at Gadeirydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i'w llofnodi. |
| **9. Camau Gweithredu'r Cadeirydd** | |
| 9.1 | Efallai y bydd adegau pan fydd angen i benderfyniadau a fyddai fel arfer yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor gael eu gwneud rhwng cyfarfodydd a drefnwyd, ac nid yw'n ymarferol galw cyfarfod o'r Pwyllgor. |
| 9.2 | Yn yr amgylchiadau hyn, caiff Cadeirydd y Pwyllgor ddelio â'r mater ar ran y Bwrdd neu'r Pwyllgor. Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn drwy ymgynghori ag aelodau'r Pwyllgor a chael eu cefnogaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd angen i'r Cadeirydd wneud penderfyniad ar ran y Pwyllgor, yn dibynnu ar natur a/neu amseriad y gofyniad. Yn yr achosion hyn, bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor yn cael gwybod fel sy'n briodol. Rhaid i unrhyw gamau o'r fath fod o fewn Dogfen Fframwaith ac Erthyglau Cymdeithasu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. |
| 9.3 | Rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir yn unol â darpariaeth Camau Gweithredu'r Cadeirydd gael eu hadrodd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf, |

a'u cofnodi yn y cofnodion. Rhaid cadw manylion a'r holl ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu yn ffurfiol.

## 10. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

10.1 Bydd y Pwyllgor yn cefnogi'r Bwrdd o ran ei gyfrifoldebau am dâl a thelerau gwasanaeth drwy adolygu a chymeradwyo ar gyfer ystyriaeth gan y Gweinidog pan fo'n ofynnol iddo wneud hynny, fel y bo'n briodol:

- tâl aelodau'r Uwch Dîm Arwain;
- tâl, telerau gwasanaeth a buddion i gyflogeion; sicrhau bod polisïau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar dâl a thelerau gwasanaeth yn cael eu rhoi ar waith yn gyson, ac yn unol ag unrhyw ganllawiau a fframweithiau Llywodraeth Cymru. Dylai hyn gynnwys rhoi ystyriaeth briodol i egwyddorion tâl sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru (gweler *Adran 3.3.26), Erthyglau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru*).
- cynigion ynghylch strwythur (cyflogai) y cwmni.
- argymhellion adolygiadau costau byw (blynyddol).
- cynigion ynghylch trefniadau terfynu a chytundebau setlo, gan sicrhau bod taliadau'n cael eu cyfrifo a'u harchwilio'n briodol yn unol â chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru.
- polisïau a gweithdrefnau allweddol ym maes adnoddau dynol, cyflogaeth a chontractau, gan gynnwys unrhyw newidiadau sylweddol a wnaethpwyd yn dilyn adolygiad cyfnodol neu mewn ymateb i newidiadau rheoleiddiol neu statudol.
- Trefniadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a goblygiadau polisi cyhoeddus.
- y system rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer pob gweithiwr. Dylai'r Pwyllgor hefyd gael sicrwydd yng nghyswllt y system sydd ar waith.

10.2 Dylai'r Pwyllgor hefyd gael sicrwydd ynghylch:

- cynllunio olyniaeth ar gyfer aelodau'r Uwch Dîm Arwain;
- datblygiadau mewn diwylliant sefydliadol a llesiant gweithwyr;
- canlyniad ymarferion arolwg gweithwyr (blynyddol).
- perthnasedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

10.3 Dylai'r Pwyllgor gael sicrwydd bod cyflogeion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cael hyfforddiant a datblygiad allweddol sy'n eu helpu i gael gafael ar unrhyw sgiliau ac ymddygiad proffesiynol, rheolaethol a pherthnasol eraill sy'n angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau.

10.4 Dylid hefyd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad unrhyw weithdrefn gwyno a/neu ddisgyblu gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

10.5 Dylai'r Pwyllgor hefyd ystyried a chael sicrwydd ynghylch risgiau sy'n ymwneud â phobl, fel y nodir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

10.6 Dylai'r Pwyllgor hefyd oruchwylio a derbyn sicrwydd ynghylch datblygiad sgiliau'r bwrdd ac aelodau'r bwrdd.

| 11. Cyfrifoldebau Adrodd | |
|---|---|
| 11.1 | Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd ar y prosesau a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer Adnoddau Dynol a Thaliadau. |
| 11.2 | Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Bwrdd. |
| 11.3 | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod. Gan fod busnes y Pwyllgor yn aml o natur sensitif a chyfrinachol, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn unrhyw adroddiad a fydd yn darparu lefel briodol o fanylion. |
| **12. Hawliau** | |
| 12.1 | Bydd gan y Pwyllgor hawl i'r canlynol:<br>• adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau; hyfforddiant priodol ac amserol, ar ffurf rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd ac yn barhaus ar gyfer pob aelod.<br>• caffael cyngor ad-hoc arbenigol ar draul y cwmni, yn amodol ar gadarnhad gan yr Uwch Dîm Arwain bod arian ar gael.<br>• gofyn am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau gan unrhyw un o weithwyr Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.<br>• cyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol. Dylid adolygu penodiad unrhyw aelodau cyfetholedig yn flynyddol, gyda deiliadaeth aelodaeth yn cyd-fynd â deiliadaeth aelodau eraill y pwyllgor.<br>• galw ar unrhyw weithiwr i gael ei holi mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn ôl yr angen.<br>• uwchgyfeirio unrhyw faterion na ellir eu datrys rhwng y Pwyllgor a'r Bwrdd i Lywodraeth Cymru. |
| **13. Adolygu a datblygu'r pwyllgor** | |
| 13.1 | Bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad blynyddol o'i berfformiad ei hun drwy broses hunanasesu gynhwysfawr. Dylai hyn fod yn sail i welliant parhaus y Pwyllgor a'i drefniadau gweithredu. |
| 13.2 | Bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad blynyddol o'i Gylch Gorchwyl ac yn argymell unrhyw newidiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i'r Bwrdd i'w cymeradwyo. |
| 13.3 | Gall y Pwyllgor hefyd drefnu o bryd i'w gilydd i gynnal adolygiad annibynnol allanol o'i gyfansoddiad a'i Gylch Gorchwyl, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. |
| 13.4 | Disgwylir i holl aelodau'r Pwyllgor ymgymryd â rhaglen ymgysylltu briodol o fewn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i weithgareddau i'w helpu i ddeall ei amcanion, ei anghenion busnes, ei flaenoriaethau a'i risgiau. Dylai hyn fod yn rhan o'u rhaglen gynefino. |